



Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Cyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant

Y Coronafeirws (COVID-19): CWESTIYNAU CYFFREDIN AR GYFER
RHIENI/CYNHALWYR AM DDYCHWELYD I'R YSGOL YM MIS MEDI 2020
FERSIWN 1 (16.7.20)

CYFLWYNIAD

Bwriad y canllaw yma yw rhannu gwybodaeth gyda rhieni a chynhalwyr am gynlluniau 'dychwelyd i'r ysgol' ar gyfer ysgolion Rhondda Cynon Taf ym mis Medi. Cadarnhaodd y Gweinidog Addysg yng Nghymru (Kirsty Williams) ar 9 Gorffennaf 2020 y bydd pob disgybl yn gallu dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi. Argymhellodd Grŵp Cyngori Technegol Cymru, sy'n darparu cyngor gwyddonol a thechnegol i'r Llywodraeth yn ystod argyfyngau, wrth y Gweinidog y dylai ysgolion “*gynllunio i agor ym mis Medi, gyda 100% o ddisgyblion yn gorfforol bresennol ar safleoedd ysgolion, cyn belled â bod lefelau COVID-19 yn parhau i ostwng yn gyson yn y gymuned*”. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar <https://llyw.cymru/y-grwp-cyngor-technegol-cyngor-ar-ddychwelyd-ir-ysgol>

Mae'r Cwestiynau Cyffredin yma yn cael eu llywio gan ganllawiau Llywodraeth Cymru:

<https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredol-ar-gyfer-ysgolion-lleoliadau-o-dymor-yr-hydref-covid-19>

Ers 23 Mawrth, yn unol â'r cyngor gwyddonol, mae meithrinfeydd, ysgolion a cholegau wedi aros ar agor i grŵp o blant a phobl ifainc sy'n cael blaenoriaeth, plant gweithwyr allweddol/hanfodol a phlant sy'n agored i niwed. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir wrth nodi y byddan nhw'n adolygu'r trefniant yma yn unol â'r cyngor gwyddonol. Mae wedi llunio strategaeth adfer, wrth hefyd ofalu bod diogelwch yn parhau i fod yn flaenoriaeth bennaf.

Mae'r Gweinidog wedi cyhoeddi, o fis Medi 2020:

- Bydd ysgolion yn dychwelyd i'w capasiti llawn, gyda dim ond pellter cymdeithasol cyfyngedig o fewn grwpiau cyswllt.
- Wrth weithredu'n llawn, dylai grŵp cyswllt gynnwys tua 30 o blant.

- Does dim modd osgoi rhywfaint o gymysgu uniongyrchol neu anuniongyrchol rhwng plant mewn gwahanol grwpiau cyswllt, megis ar drafnidiaeth, wrth dderbyn addysgu arbenigol neu yn sgil cyfyngiadau staffio.
- Dylai oedolion barhau i gadw pellter cymdeithasol yn unol â rheoliadau a chanllawiau, lle bo hynny'n bosibl.
- Bydd gofyn i ysgolion leihau'r risg o drosglwyddo'r haint drwy gymryd mesurau lliniaru eraill gan ddefnyddio hierarchaeth o reolaethau risg.
- Dylai pob ysgol barhau i "ddiogelu'i hun rhag COVID-19", a hynny ar ôl cynnal asesiadau risg. Dylai ysgolion liniaru'r risgiau yma drwy gyfuniad o fesurau rheoli fel sicrhau hylendid dwylo ac arwynebau, systemau unffordd ac ati.
- Os bydd systemau rhybuddion cynnar yn nodi gwybodaeth am ddigwyddiad neu achos lleol, yna dylai ysgolion cyfagos roi mesurau cyfyngu priodol ar waith.
- Bydd pob ysgol yn derbyn cyflenwad o becynnau profi gartref.

CWESTIYNAU CYFFREDINOL

1. Pam oes modd i fwy o blant ddychwelyd i'r ysgol erbyn hyn?

Ers y penderfyniad i gau ysgolion ar gyfer darpariaeth statudol, mae ein dealltwriaeth o'r feirws a'i effeithiau tymor hwy wedi parhau i ddatblygu. Rydyn ni'n gwybod y bydd rhaid i ni fyw gydag ef am gryn amser a bydd yn parhau i fod yn un o'n heriau mwyaf hyd y mae modd rhagweld. Er nad yw'n bosibl sicrhau amgylchedd cwbl ddi-risg, mae ymchwil wedi dangos nad yw staff mewn lleoliadau addysgol yn tueddu i fod mewn mwy o risg o'r clefyd nag unrhyw alwedigaethau eraill. Does dim tystiolaeth ychwaith bod plant yn trosglwyddo'r afiechyd yn fwy nag oedolion.

Gan ystyried y sefyllfa rydyn ni ynnddi bellach, mae cydbwysedd y risg yn dangos erbyn hyn ei bod hi'n well i blant ddychwelyd i'r ysgol. Mae bod allan o'r ysgol yn niweidiol i ddatblygiad academiaidd tymor byr a thymor hir plant, yn ogystal ag yn niweidiol i'w hiechyd a'u lles, yn enwedig i blant difreintiedig. Rydyn ni hefyd yn gwybod bod cyflawniad academiaidd is hefyd yn arwain at gostau economaidd tymor hir. Rydyn ni hefyd yn gwybod bod cau ysgolion wedi effeithio ar allu rhai teuluoedd i weithio. Trwy gael ein dysgwyr yn ôl i'r ysgol mor gyflym ac mor ddiogel â phosibl, daw â buddion cadarnhaol i sawl elfen o'u bywydau – yn anad dim, eu lles meddyliol ac emosiynol.

2. Pryd bydd modd i fy mhlentyn i ddychwelyd i'r ysgol?

Bydd ysgolion yn dechrau'r cam nesaf ar 1 Medi 2020 a bydd ysgolion ar agor i ddysgwyr ddychwelyd yn raddol ar 3 Medi 2020.

Bydd pythefnos gyntaf y tymor yn gyfnod o hyblygrwydd er mwyn caniatáu cynllunio ac ad-drefnu. Mae disgwyl y bydd hyn yn golygu y bydd o leiaf 33% o ddisgyblion yn bresennol yn ystod yr wythnos gyntaf ym mis Medi; 50% o ddydd

Llun 7 Medi; gyda 100% o ddisgyblion yn dychwelyd i'r ysgol erbyn dydd lau 10 Medi.

Bydd ysgolion yn rhoi gwybod i rieni/cynhalwyr o'r dyddiad dychwelyd sy'n berthnasol i'w plentyn/plant.

3. **A fydd pob grŵp oedran yn dychwelyd i'r ysgol yn ystod tymor yr hydref?**

Bydd tymor yr hydref yn dechrau ar 1 Medi a bydd ysgolion yn croesawu dysgwyr yn ôl fesul dipyn o 3 Medi ymlaen. Mae'n bosibl bydd yr ysgolion hynny sy ddim angen amser sylweddol i drefnu yn dewis agor cyn 3 Medi. Bydd cyfnod o hyblygrwydd er mwyn i ysgolion allu canolbwyntio ar grwpiau blwyddyn â blaenoriaeth. Bydd hyn hefyd yn caniatáu amser, hyd at bythefnos, ar gyfer unrhyw gynllunio ac ad-drefnu. Bydd diwrnodau cynllunio a pharatoi yn digwydd ar ddechrau'r tymor i alluogi ysgolion a lleoliadau i weithio gyda'u staff i adolygu eu hasesiadau risg, eu prosesau a'u systemau cysylltiedig.

Mae'n bosibl y bydd angen blaenoriaethu rhai grwpiau penodol o ddysgwyr yn ystod wythnos gyntaf y tymor, megis dosbarthiadau cynnal dysgu sydd ynghlwm wrth ysgolion prif ffrwd, blynyddoedd cynnar a blwyddyn 6 mewn ysgolion cynradd, a blwyddyn 7 a grwpiau sy'n wynebu arholiadau mewn ysgolion uwchradd.

Yn ystod ail wythnos y tymor, bydd ysgolion a lleoliadau yn ceisio cynyddu nifer y dysgwyr sy'n bresennol er mwyn croesawu'r holl ddysgwyr yn ôl erbyn 10 Medi.

4. **Sut bydd y risgiau i blant, athrawon a theuluoedd yn cael eu rheoli?**

Dyma ganllawiau Llywodraeth Cymru a'r cymorth sydd ar gael i ysgolion a lleoliadau gofal plant, er mwyn eu helpu i leihau'r risg o drosglwyddo'r haint wrth i ragor o blant a phobl ifainc dychwelyd i ysgolion: <https://llyw.cymru/diogelu-staff-phlant-rhag-y-coronafeirws-mewn-gofal-plant>

Er mwyn atal lledaeniad y Coronafeirws (COVID-19), bydd ysgolion a lleoliadau eraill yn defnyddio ystod o fesurau amddiffynnol i greu amgylcheddau mwy diogel lle mae'r risg o ledaenu'r feirws yn cael ei leihau'n sylweddol. Er bod newidiadau o'r fath yn debygol o edrych yn wahanol ym mhob lleoliad, gan y byddan nhw'n dibynnu ar amgylchiadau unigol, maen nhw i gyd wedi'u cynllunio i leihau'r perygl i blant, staff a'u teuluoedd.

Dylai ysgolion a lleoliadau eraill roi gwybod am eu cynlluniau i rieni unwaith iddyn nhw gael cyfle i weithio drwyddyn nhw'n fanwl. Mae'r dulliau rydyn ni'n gofyn i ysgolion a lleoliadau eraill eu mabwysiadu yn cynnwys:

- cynnal asesiad risg cyn agor i ragor o blant a phobl ifainc. Bydd yr asesiad yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â risgiau sy'n gysylltiedig â'r Coronafeirws (COVID-19) fel bod modd rhoi mesurau synhwyrol ar waith i leihau'r risgiau hynny i blant, pobl ifainc a staff

- gofalu fod plant a phobl ifainc ddim yn dod i'r ysgol os oes ganddyn nhw neu rywun sy'n byw gyda nhw symptomau'r Coronafeirws (COVID-19)
- golchi dwylo'n rheolaidd am 20 eiliad gyda dŵr sy'n llifo a sebon neu ddefnyddio hylif glanhau dwylo a sicrhau hylendid anadlol da trwy hyrwyddo 'ei ddal, ei daflu, ei ddifa'
- defnyddio biniau pedal rydych chi'n eu hagogr â'ch traed/sy'n cau eu hunain ar gyfer cael gwared ar hancesi papur neu gadachau diheintio
- gosod arwyddion i atgoffa'r holl blant ac aelodau staff am yr angen i olchi dwylo'n aml
- glanhau arwynebau sy'n cael eu cyffwrdd yn aml, megis dolenni drysau, rheiliau llaw, byrddau, offer chwarae a theganau yn amlach
- darparu cadachau gwrthfacteria i hwyluso'r weithred o lanhau yn rheolaidd
- lleihau cyswllt rhwng pobl trwy greu grwpiau cyswllt
- lleihau nifer y cysylltiadau rhwng dysgwyr a staff trwy osgoi nifer o bobl yn ymgynnull, er enghraifft, mewn gwasanaethau
- newid yr amgylchedd gymaint ag sy'n bosibl, megis newid cynllun ystafelloedd dosbarth er mwyn osgoi cyswllt wyneb yn wyneb
- arwyddion ledled yr adeilad er mwyn hwyluso ac atgoffa'r angen i ddilyn y rheolau cadw pellter cymdeithasol
- lleihau cymysgu rhwng grwpiau trwy wneud newidiadau i'r amserlen, megis cael amseroedd egwyl amrywiol, creu parthau chwarae gwahanol neu drwy gyflwyno amseroedd gollwng a chasglu amrywiol
- disgyblion yn dod ac yn defnyddio eu hoffer ysgol eu hunain
- peidio â chaniatáu i ymwelwyr allanol ddod i'r ysgol yn ddiangen. Rhaid i ymwelwyr drefnu apwyntiad
- datblygu protocolau ynghylch defnyddio toiledau yn ystod amser egwyl a chinio.
- gwneud defnydd o'r rhaglen Profi Orlhain Diogelu; ac
- ystyriaeth ffurfiol o sut i leihau cysylltiadau rhwng pobl a sicrhau pellter rhwng pobl sydd yn yr ysgol lle bynnag y bo modd a lleihau'r potensial ar gyfer lledaenu'r haint i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol

Bydd sut mae'r cysylltiadau hynny rhwng pobl yn cael eu lleihau yn dibynnu ar amgylchiadau'r ysgol, a dylai gynnwys:

- grwpio dysgwyr gyda'i gilydd;
- osgoi cyswllt rhwng grwpiau cymaint ag sy'n bosibl;
- trefnu ystafelloedd dosbarth gyda desgiau sy'n wynebu'r blaen (lle bo hynny'n bosibl ac yn briodol); a
- sicrhau bod staff yn cadw pellter oddi wrth y disgyblion a staff eraill gymaint ag sy'n bosibl.

5. Oes rhaid i fy mhleintyn i ddod i'r ysgol?

Bydd angen i'r holl blant a phobl ifainc a grwpiau sy'n cael blaenoriaeth (fel plant sy'n agored i niwed) fynychu'r ysgol yn ystod tymor yr hydref, yn unol â chais eu hysgol oni bai eu bod yn hunan-ynysu neu os oes rhesymau eraill dros fod yn absennol (megis gwarchod oherwydd cyflyrau iechyd).

Dylech chi roi gwybod i ysgol eich plentyn, yn ôl yr arfer, os dydy'ch plentyn ddim yn gallu mynychu fel bod staff yn effro i'r ffaith ei fod yn sâl ac yn gallu trafod y mater gyda chi.

Fydd rhieni ddim yn cael dirwy am beidio â sicrhau bod eu plant yn mynychu ar hyn o bryd, ond fe fydd hyn yn cael ei adolygu a'i fonitro dros gyfnod hanner tymor cyntaf yr hydref.

6. **A ddylwn i gadw fy mhientyn gartref os oes ganddo gyflwr iechyd sylfaenol, neu os yw'n byw gyda rhywun mewn grŵp sy'n agored i niwed yn glinigol, neu os ydw i'n bryderus ynghylch fy mhientyn yn dychwelyd i'r ysgol?**

Dylai unrhyw riant sydd â phryderon meddygol am eu plentyn ddilyn cyngor meddygol a ddarperir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru neu eu meddyg teulu lleol wrth ystyried anfon plentyn i'r ysgol yn ystod y pandemig cyfredol.

Disgyblion sy'n 'eithriadol o agored i niwed' neu sy'n gwarchod

Pan nad oes modd i ddisgybl fynychu'r ysgol oherwydd bod ganddyn nhw broblemau iechyd eraill a'u bod yn gorfod cael eu gwarchod, bydd yr ysgol yn parhau i ddarparu cefnogaeth ac adnoddau er mwyn i'r disgybl allu dysgu. Mae'n bosibl bydd hyn yn digwydd trwy amryw o ffyrdd, megis pecynnau gwaith a gwaith o ffynonellau digidol trwy Hwb, ac ati.

Bydd y sefyllfa yn cael ei hystyried yng ngoleuni'r cyngor mwyaf cyfredol ynghylch gwarchod unigolion. Rydyn ni'n rhagweld y bydd canllawiau am warchod a hunanynysu wedi'u diweddarau yn cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn fuan.

Dysgwyr sy'n agored i niwed yn glinigol â 'risg uwch'

Yng nghyd-destun COVID-19, mae unigolion 'risg uwch' mewn mwy o berygl o salwch COVID-19 difrifol. Mae'r categori yma'n cynnwys plant a phobl ifainc sydd ag ystod o gyflyrau iechyd cronig. Dylai pobl ifainc sy'n feichiog aros gartref os ydyn nhw dros 28 wythnos yn feichiog.

Os bydd disgyblion sy'n agored i niwed yn glinigol yn dod i'r ysgol, rhaid cymryd gofal ychwanegol i sicrhau bod yr unigolion sy'n agored i niwed, a'r rheiny sydd o'u hamgylch, yn glynu wrth ganllawiau cadw pellter cymdeithasol caeth. Rhaid i rieni/cynhalwyr gydsynio'n llawn i blentyn â chyflyrau o'r fath ddod i'r ysgol, a rhaid iddyn nhw gytuno'n llawn i asesiad risg unigol a'r mesurau rheoli cysylltiedig.

Byw gyda pherson sydd naill ai'n cael ei warchod neu sydd mewn mwy o berygl

Os yw dysgwr yn byw gyda rhywun sydd mewn mwy o berygl neu sy'n gorfod cael ei "warchod", dylai ond mynd i ysgol neu leoliad lle mae modd iddo ddilyn mesurau cadw pellter cymdeithasol/corfforol cadarn a dylai'r disgybl fod yn gallu deall a dilyn y cyfarwyddiadau hynny. Efallai na fydd hyn yn bosibl i ddysgwyr ifainc iawn, a dysgwyr hŷn heb y gallu i ddilyn y cyfarwyddiadau cadw pellter cymdeithasol a

chorfforol. Yn yr achosion hynny, does dim disgwyl i ddysgwyr fynychu'r ysgol a chânt eu cefnogi i ddysgu gartref.

Fodd bynnag, dylid ystyried sefyllfa o'r fath yng ngoleuni'r cyngor mwyaf cyfredol ynghylch gwarchod unigolion. Rydyn ni'n rhagweld y bydd canllawiau am warchod a hunan-ynysu wedi'u diweddarau yn cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn fuan.

Rhieni/cynhalwyr a dysgwyr sy'n bryderus ynghylch dychwelyd i'r ysgol ac i leoliadau

Rhaid i bob dysgwr arall fynychu'r ysgol. Mae ysgolion yn effro i'r ffaith y gallai rhai disgyblion, rhieni/cynhalwyr fod yn amharod neu'n bryderus ynghylch dychwelyd i'r ysgol a bydd ysgolion yn derbyn cymorth i fynd i'r afael â hyn. Mae modd i hyn gynnwys dysgwyr sydd wedi gorfod cael eu gwarchod o'r blaen ond sydd wedi cael gwybod nad yw hyn yn angenrheidiol mwyach, y rhai sy'n byw mewn cartrefi lle mae rhywun yn agored i niwed yn glinigol, neu'r rhai sy'n poeni am y risg gymharol uwch o'r Coronafeirws (COVID-19), gan gynnwys y rhai o Gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) neu sydd â chyflyrau penodol fel gordewdra a diabetes.

Mae modd i rieni/cynhalwyr sy'n pryderu am ddysgwyr sydd â ffactorau risg sylweddol drafod eu pryderon gyda'r ysgol a bydd yr ysgol yn esbonio'r mesurau sydd ar waith i leihau'r risg a darparu sicrwydd i bawb. Rhaid i ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol fynychu'r ysgol o 14 Medi oni bai bod rheswm statudol yn berthnasol (er enghraifft, bod y disgybl wedi cael caniatâd i fod yn absennol, nad yw'n gallu mynychu oherwydd salwch, yn absennol ar gyfer defod grefyddol angenrheidiol, ac ati).

7. A fydd addysg yn cael ei darparu yn ôl yr arfer i blant a phobl ifainc sy'n mynychu'r ysgol?

Mae gan leoliadau addysg yr hyblygrwydd o hyd i ddarparu cefnogaeth ac addysg i blant a phobl ifainc sy'n mynychu'r ysgol ym mha bynnag ffordd y gwelan nhw fod angen gwneud hynny yn ystod yr amser yma. Rydyn ni'n disgwyl gallu cynnig mynediad llawn at y cwricwlwm i bawb, a'i gynnig yn llawn yn yr ysgol.

Mae ysgolion yn parhau i fod yn y sefyllfa orau i wneud penderfyniadau ynghylch sut i gefnogi ac addysgu eu disgyblion yn ystod y cyfnod yma. Bydd hyn yn cynnwys:

- ystyried iechyd meddwl a lles disgyblion
- asesu ble mae'r disgyblion o ran eu haddysg er mwyn llywio unrhyw raglenni wedi'u targedu a dysgu cydadferol, os oes angen
- cyflwyno cwricwlwm cenedlaethol eang, cytbwys a gwahaniaethol priodol
- darpariaeth i ddisgyblion â Datganiadau Anghenion Addysgol Arbennig

Bydd ysgolion yn cysylltu â rhieni/cynhalwyr ynghylch dechrau tymor yr hydref.

Bydd ysgolion yn gwneud eu gorau glas i gynorthwyo disgyblion sy'n mynychu'r ysgol yn ogystal â'r rhai sy'n aros gartref, gan ddefnyddio'r gefnogaeth addysg o bell sydd ar gael.

ADEILADAU'R YSGOL

8. Pa fesurau sydd wedi'u cymryd i sicrhau bod safle'r ysgol yn ddiogel?

Mae lleihau cysylltiadau a chymysgu rhwng pobl yn lleihau'r risg o drosglwyddo'r haint. Felly, bydd ysgolion yn ymdrechu i gadw grwpiau ar wahân a chynnal pellter rhwng unigolion lle bo hynny'n bosibl.

Mae'n debygol y byddwn yn canolbwyntio ar wahanu grwpiau a chadw dysgwyr iau yn eu grwpiau cyswllt drwy gydol y diwrnod ysgol; ac i ddysgwyr hŷn (er enghraifft, mewn ysgolion uwchradd lle mae angen i ddisgyblion ddilyn cwricwlwm eang) byddwn yn canolbwyntio ar rywfaint o bellhau yn unig.

Dylai oedolion gadw pellter cymdeithasol o 2 fetr oddi wrth ei gilydd, ac wrth ddisgyblion (pryd bynnag y bo hynny'n bosibl). Fydd hyn ddim bob amser yn bosibl, yn enwedig wrth weithio gyda dysgwyr iau, dysgwyr sydd ag anghenion cymhleth neu sydd angen gofal cyswllt agos; fodd bynnag, bydd hyd yn oed rhyw faint o gadw pellter cymdeithasol ymhlith oedolion am gyfnodau o fudd.

Mae pob ysgol wedi gosod arwyddion er mwyn hwyluso'r weithdrefn o gadw pellter cymdeithasol ac i atgoffa'r holl staff a'r dysgwyr o'r angen i barhau â chadw pellter rhyngddyn nhw ag eraill.

Bydd systemau unffordd ar waith (lle bo'n bosibl) a bydd marciau ar y lloriau/waliau yn cael eu defnyddio i nodi llwybrau unffordd.

Bydd amserlenni'n ceisio sicrhau bod cyn lleied â phosibl o symud o amgylch y safle ac yn sicrhau na fydd gormod o bobl yn ymgynnull yn y coridorau.

Mae ystafelloedd dosbarth yn cael eu haildrefnu er mwyn gwneud y gorau o'r gofod; bydd dodrefn dros ben yn cael eu symud oddi yno a'r bwriad yw cynllunio'r ystafell i osgoi cyswllt wyneb yn wyneb lle bo hynny'n bosibl.

Bydd ysgolion yn osgoi sesiynau sy'n gofyn am ymgynnull, er enghraifft gwasanaethau gyda mwy nag un grŵp.

Mae'n bosibl y bydd amser dechrau/diwedd yr ysgol a chyfnodau egwyl a chinio yn cael eu hamrywio.

Lle bo modd, bydd toiledau ar wahân yn cael eu dyrannu i wahanol grwpiau cyswllt. Bydd y toiledau'n cael eu glanhau'n rheolaidd drwy gydol y dydd.

Bydd hylif diheintio dwylo a sebon dwylo ar gael yn rhwydd gyda nifer o nodiadau atgoffa am bwysigrwydd hylendid dwylo da.

Bydd gan ysgolion gyflenwad o finiau pedal mae modd eu hagor gyda'r droed ar gyfer gwaredu hancesi a chadachau yn ddiogel – bydd y dull 'ei ddal, ei finio, ei ladd' yn cael ei hyrwyddo a bydd yn rhan o ddiwylliant pob ysgol.

Bydd ffenestri'n cael eu hagor (lle bo'n bosibl ac yn ddiogel i wneud hynny) i wella awyru naturiol.

Bydd gan bob ysgol asesiadau risg wedi'u diweddarau ar waith er mwyn sicrhau diogelwch eu lleoliadau – bydd yr asesiad yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â risgiau sy'n gysylltiedig â'r Coronafeirws (COVID-19) er mwyn rhoi mesurau synhwyrol ar waith i leihau'r risgiau hynny i blant, pobl ifainc a staff.

9. **A fydd cyfleusterau ar gyfer golchi dwylo'n rheolaidd ar gael ar gyfer aelodau o staff a disgyblion?**

Bydd disgyblion a staff yn cael eu hannog i ymolchi neu ddiheintio eu dwylo ar ôl cyrraedd yr ysgol/wrth adael yr ysgol ac yn rheolaidd drwy gydol y dydd, yn enwedig cyn ac ar ôl trafod bwyd, wrth ddefnyddio'r toiledau a phan fyddan nhw'n peswch neu'n tisian. Bydd biniau pedal rydych chi'n eu hagor â'ch traed/sy'n cau eu hunain ar gael ar gyfer cael gwared ar hancesi papur neu gadachau diheintio.

Bydd yr arferion yma'n cael eu hymgorffori yn niwylliant yr ysgol, ynghyd â disgwyliadau o ran ymddygiad. Bydd dysgwyr iau a'r rheini ag anghenion cymhleth yn cael cymorth pellach i'w helpu i gael hyn yn iawn.

Bydd arwyddion ar waith ledled adeiladau'r ysgol yn nodi lleoliadau hylif diheintio dwylo a bydd arwyddion ym mhob ardal sinciau yn atgoffa pawb o'r angen i olchi dwylo'n aml. Bydd digonedd o sebon dwylo a hylif diheintio dwylo ar gael ym mhob adeilad ysgol.

10. **Pa mor aml y caiff ysgolion eu glanhau?**

Bydd pob ysgol yn cael ei glanhau am gyfnod hirach ac yn fwy aml bob dydd. Mae glanhawyr wedi derbyn cyfarwyddiadau ynghylch gofynion glanhau o safon uwch ac wedi dysgu i adnabod arwynebau mae rhaid eu glanhau yn amlach, fel dolenni drysau, byrddau, rheiliau llaw, offer chwarae, teganau ac ati.

Bydd adnoddau sy'n cael eu rhannu rhwng grwpiau cyswllt, megis cyfarpar chwaraeon, celf a gwyddoniaeth yn cael eu glanhau'n aml ac yn drylwyr, yn enwedig lle mae'n angenrheidiol iddyn nhw gael eu defnyddio gan fwy nag un grŵp cyswllt.

Bydd cadachau gwrthfacteria ar gael yn rhwydd er mwyn hwyluso gallu glanhau yn rheolaidd.

11. **Beth os bydd rhiant am fynd i adeilad yr ysgol er mwyn siarad ag athro/athrawes?**

Does dim caniatâd i unrhyw riant fod yn adeilad yr ysgol oni bai ei fod wedi trefnu ymweld ymlaen llaw. Os bydd angen cyswllt athro/rhiant, dylid gwneud hyn drwy apwyntiad a dylid archwilio'r trefniadau ar gyfer cyfathrebu ar ffurf sain neu fideo yn lle hynny.

Bydd ymwelwyr allanol â'r ysgol ond yn cael mynediad os ydyn nhw wedi trefnu apwyntiad ymlaen llaw.

12. **Doedd neb yn defnyddio adeiladau'r ysgol am nifer o fisoedd, ac ni fydd neb yn eu defnyddio eto dros gyfnod yr haf – ydyn nhw wedi'u cynnal a'u cadw?**

Mae gwaith cynnal a chadw wedi cael ei wneud ar adeiladau ysgol drwy gydol cyfnod y cyfyngiadau symud ac yn ystod y cyfnod cafodd yr ysgolion eu hailagor ddiwedd tymor yr haf. Mae gofalwyr wedi bod ar lawer o safleoedd yn ystod y misoedd diwethaf tra bod yr ysgolion wedi bod ar gau, ac mae profion statudol cyfredol wedi'u cynnal. Bydd gofalwyr yn parhau i fod ar y safleoedd ac yn parhau gyda'r profion yma.

Y DIWRNOD YSGOL

13. **Beth fydd maint y dosbarthiadau?**

Mewn ysgolion uwchradd, yn enwedig yn y grwpiau oedran hŷn yng Nghyfnod Allweddol 4 a 5, mae'n debygol y bydd angen i grwpiau cyswllt fod yr un maint â grŵp blwyddyn i alluogi ysgolion i gyflawni'r ystod lawn o bynciau'r cwricwlwm ac i ddisgyblion dderbyn addysg arbenigol. Os oes modd cyflawni hyn mewn grwpiau bach, argymhellir i chi wneud hynny.

Mewn ysgolion cynradd, a blynyddoedd iau ysgolion uwchradd (Cyfnod Allweddol 3), mae'n bosibl y bydd modd i ysgolion ddefnyddio grwpiau llai, sef maint dosbarth llawn. Lle bo hyn yn profi'n heriol o fewn Cyfnod Allweddol 3, bydd angen creu grwpiau cyswllt mwy o faint yn cynnwys naill ai hanner y flwyddyn ysgol neu'r flwyddyn gyfan. Lle bo modd cynnal grwpiau maint dosbarth, argymhellir i chi wneud hynny gan y bydd hyn yn helpu i leihau nifer y bobl y byddai gofyn iddyn nhw hunan-ynysu pe bai rhywun yn y grŵp yn dod yn sâl gyda COVID-19.

Beth bynnag fo maint y grŵp, dylid ei gadw ar wahân i grwpiau eraill lle bo modd a dylid annog disgyblion hŷn i gadw pellter o fewn grwpiau.

14. **Beth fydd y trefniadau ar gyfer disgyblion sy'n defnyddio'r toiledau?**

Bydd digon o hylif diheintio dwylo a sebon dwylo ar gael a, lle bo modd, bydd ysgolion yn darparu toiledau ar wahân ar gyfer grwpiau cyswllt gwahanol.

Lle nad oes modd darparu toiledau ar wahân ar gyfer grwpiau cyswllt gwahanol, bydd digon o hylif diheintio dwylo a sebon dwylo ac annog arferion hylendid dwylo

da cyn ac ar ôl mynd i ardal y toiledau yn helpu. Bydd toiledau yn cael eu glanhau'n rheolaidd drwy gydol y dydd.

15. A fydd fy mhlentyn gyda'r un grŵp bob amser?

Mae grwpiau cyson yn helpu i leihau'r risg o drosglwyddo trwy gyfyngu ar nifer y disgyblion a staff sy'n dod i gysylltiad â'i gilydd i'r rheiny sydd yn y grŵp. Derbynnir nad oes modd i ddisgyblion, yn enwedig y disgyblion ieuengaf, gadw pellter cymdeithasol oddi wrth staff na'i gilydd ac mae grwpiau cyson yn darparu mesur amddiffynnol ychwanegol. Bydd cynnal grwpiau cyswllt penodol nad ydyn nhw'n cymysgu yn ei gwneud hi'n gyflymach ac yn haws, os bydd achos positif, adnabod y rheiny y bydd angen iddyn nhw, o bosibl, hunan-ynysu a chadw'r nifer mor isel â phosibl.

16. Gaiff fy mhlentyn ddod â hylif diheintio dwylo ei hun i'r ysgol a gwisgo Cyfarpar Diogelu Personol?

Bydd gan bob ysgol hylif diheintio dwylo mewn sawl man ar hyd a lled yr adeilad a bydd ar gael i'r holl ddisgyblion ac aelodau o staff ei ddefnyddio.

Mewn amgylchiadau arferol, dydy Cyfarpar Diogelu Personol ddim yn cael ei gynghori a fydd ddim ei angen oni bai bod asesiadau risg yn nodi'n wahanol. Fodd bynnag os bydd plentyn yn dymuno gwisgo'r cyfarpar i'r ysgol, mae modd iddo wneud hynny, ond dylech gofio ddylai'r rhai sydd ddim â'r modd i drin y cyfarpar yn ôl y cyfarwyddyd (er enghraifft, plant ifainc, neu blant ag anghenion addysgol arbennig neu anabledau) ddim ei wisgo oherwydd mae'n bosib i hyn gynyddu'r risg o drosglwyddo'r feirws yn anfwriadol.

Dydy gorchuddion ar yr wyneb ddim yn disodli mesurau llawer yn fwy effeithiol fel cadw pellter cymdeithasol a chadw eich dwylo'n lân a'n ddiheintus.

17. A fydd rywun yn nodi tymheredd fy mhlentyn wrth iddo gyrraedd yr ysgol?

Mae pob ysgol wedi derbyn dyfeisiau nodi tymheredd (thermomedrau talcen isgoch). Mae hyn yn cael ei reoli ar lefel leol ymhob ysgol, er nad yw'n hanfodol i nodi tymheredd.

18. Gaiff fy mhlentyn ddod â bag/cas pensiliau i'r ysgol?

Caiff plant ddod â bag/cas pensiliau i'r ysgol yn ôl y gofyn. Dylai'r rhain fod ar gyfer eu defnydd personol yn unig a rhaid peidio â rhannu offer na deunydd ysgrifennu. Serch hynny, sylwch y gall bagiau pensil ffabrig fod yn anodd eu glanhau. Argymhellir i ddisgyblion ddod ag offer hanfodol yn unig â nhw i'r ysgol bob dydd. Dylid lleihau'r angen i drosglwyddo eitemau yn ôl ac ymlaen o'r cartref i'r ysgol lle bo hynny'n bosib.

19. Sut y caiff amseroedd egwyl/amser cinio eu rheoli a'u monitro?

Bydd disgyblion yn bwyta cinio mewn mannau bwyta penodol yn eu grwpiau cyswllt. Bydd modd bwyta yn yr awyr agored (gan ddibynnu ar y tywydd) ond eto, rhaid i ddisgyblion aros yn eu grwpiau cyswllt lle bo modd.

Bydd amseroedd egwyl ac amser cinio yn cael eu hamrywio i'r disgyblion fel dim ond hyn a hyn o blant sy'n cael egwyl neu ginio ar yr un pryd.

20. **Sut y mae modd i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol neu'r rheiny sydd angen cymorth corfforol er mwyn symud gadw pellter cymdeithasol?**

Mewn amgylchiadau lle mae cadw pellter cymdeithasol yn anodd (fel diwallu anghenion disgybl ag Anghenion Dysgu Ychwanegol neu anghenion corfforol), bydd Cyfarpar Diogelu Personol ychwanegol yn cael ei ddarparu i aelodau o staff os yw hyn yn addas yn ôl asesiad risg. Mae'r awdurdod lleol wedi darparu cyflenwadau Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) i bob ysgol.

Mae ysgolion hefyd wedi cael sgriniau symudol gan eu galluogi i ddarparu cymorth addysgol/bugeiliol/emosiynol 1:1 i ddisgyblion sydd ei angen heb ei bod yn orfodol i wisgo Cyfarpar Diogelu Personol.

21. **Sut y mae modd sicrhau fod addysg y Cyfnod Sylfaen yn cael ei chyflwyno'n ddiogel?**

Bydd modd i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen gael y cyfle i barhau i ddysgu drwy chwarae. Bydd defnydd ychwanegol yn cael ei wneud o'r mannau awyr agored sydd ar gael a bydd modd creu ardaloedd gwahanol yn y dosbarth ar gyfer gweithgareddau gwahanol e.e. gweithgareddau ysgrifenedig; gweithgareddau creadigol; gweithgareddau adeiladu; gweithgareddau chwarae ac ati. Fydd pyllau tywod a dŵr ddim yn cael eu defnyddio a fydd dim dodrefn meddal na gwisgoedd ar gael i'r plant eu defnyddio na'u gwisgo. Serch hynny, mae gan staff y blynyddoedd cynnar brofiad helaeth o ffyrdd creadigol a deniadol o weithio gyda phlant ifainc. Bydd yr adnoddau sy'n cael eu defnyddio'n hawdd eu glanhau a byddan nhw'n cael eu glanhau'n aml.

22. **Pa waith fydd yn cael ei roi i ddisgyblion os bydd cyfyngiadau symud lleol yn cael eu rhoi ar waith?**

Bydd angen i bob ysgol gynllunio ar gyfer y posibilrwydd o gyfyngiadau symud lleol pellach a bydd dull dysgu cymysg yn cael ei ddefnyddio i sicrhau bod holl ddisgyblion yn parhau i ymgysylltu â gweithgareddau addysg, hyd yn oed os na fydd eu hysgol ar agor.

Bydd gweithgareddau dysgu o bell yn parhau i gael eu darparu ar gyfer y plant hynny does dim modd iddyn nhw ddod i'r ysgol oherwydd amgylchiadau o ran eu hiechyd neu'n os ydyn nhw'n cael eu gwarchod.

23. **Sut bydd trefniadau gollwng a chasglu plant yn cael eu rheoli yn yr ysgol?**

Bydd amseroedd dechrau a gorffen yr ysgol yn cael eu hamrywio.

Rhaid i rieni/gynhalwyr sy'n gollwng plant yn yr ysgol gadw pellter o 2 fetr oddi wrth deuluoedd eraill lle bynnag y bo modd. Bydd marciau ar y lloriau er mwyn helpu rhieni/cynhalwyr i giwio ac aros 2 fetr oddi wrth ei gilydd. Fydd ddim caniatâd i rieni/gynhalwyr fynd i mewn i adeilad yr ysgol a rhaid iddyn nhw adael safle'r ysgol yn syth, heb ymgasglu ag eraill.

Bydd trefniadau casglu plant o'r ysgol yn ystod cyfnod y prynhawn yn amrywio yn unol â chynllun safle unigol pob ysgol. Bydd ysgolion yn gwneud trefniadau priodol i sicrhau bod y rheolau cadw pellter cymdeithasol 2 fetr yn cael eu cynnal lle bynnag y bo'n bosibl. Rhaid i rieni/gynhalwyr/ddisgyblion adael safle'r ysgol ar unwaith a pheidio ymgasglu ag eraill.

ARLWYO

24. **A fydd clybiau brecwast a chlybiau ar ôl ysgol yn dal i fod yn weithredol?**

Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, bydd ailagor clybiau brecwast a darpariaeth ar ôl ysgol yn cael ei ystyried ar ôl i'r holl ddisgyblion ddychwelyd yn raddol i'r ysgol yn ystod pythefnos gyntaf y tymor ym mis Medi. Bydd dull fesul cam yn cael ei fabwysiadu wrth eu hailgyflwyno, a hynny yn dilyn adolygiad o gapasiti ysgolion yn ateb y galw yn ogystal â chadw grwpiau cyswllt yn ddiogel a chadw pellter cymdeithasol, lle bo hynny'n bosibl. Fydd dim clybiau brecwast na darpariaeth clybiau ar ôl ysgol yn ystod pythefnos gyntaf y tymor. Bydd y ddarpariaeth yn cael ei adolygu yn ystod y cyfnod yma, gyda'r bwriad o gyfyngu nifer y llefydd sydd ar gael ar gyfer grwpiau â blaenoriaeth yn y dyfodol. Bydd plant sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a phlant sy'n agored i niwed yn cael eu blaenoriaethu. Bydd pecyn brecwast ar gael i ddysgwyr Prydau Ysgol am Ddim yn unig yn ystod y cyfnod yma.

25. **Beth fydd y trefniadau ar gyfer amser cinio?**

Bydd ceginau ar agor yn llawn o ddechrau tymor yr hydref a bydd bwyd ar gael i'r holl ddisgyblion sydd ei eisiau, gan gynnwys y rheiny sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim. Bydd disgyblion yn bwyta cinio mewn manau bwyta penodol gyda'u grwpiau cyswllt. Bydd arwynebau sy'n cael eu defnyddio i fwyta arny'n nhw'n cael eu glanhau ar ôl pob grŵp/defnydd. Bydd modd bwyta yn yr awyr agored (gan ddibynnu ar y tywydd) ond eto, rhaid i ddisgyblion aros yn eu grwpiau cyswllt lle bo modd. Mewn nifer fach o achosion, mae'n bosibl y bydd angen i ddisgyblion fwyta cinio yn eu hystafell ddosbarth i gryfhau mesurau cadw pellter cymdeithasol.

26. **A fydd modd i ddisgyblion hŷn adael safle'r ysgol er mwyn cael cinio yn y gymuned?**

Fydd ddim modd i unrhyw ddisgybl adael safle'r ysgol yn ystod y dydd.

27. **Fydd Prydau Ysgol am Ddim yn parhau?**

Bydd taliadau BACS yn parhau i gael eu gwneud i rieni/cynhalwyr y disgyblion hynny sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim tan 31 Awst. Bydd prydau ysgol am ddim yn cael eu darparu yn yr ysgol o dymor yr hydref.

28. **A fydd dŵr ar gael yn ystod y dydd?**

Dylai pob disgybl ddod â photeli dŵr wedi'u llenwi i'r ysgol y mae modd iddyn nhw eu hail-lenwi yn ystod y dydd. Bydd y weithred o ail-lenwi poteli dŵr yn cael ei rheoli a'i goruchwyllo gan yr ysgol er mwyn sicrhau bod dŵr ar gael i'r rheiny sydd ei angen neu sy'n gofyn amdano.

GWISG YSGOL

29. **A fydd rhaid gwisgo gwisg ysgol a pha mor aml y bydd rhaid golchi dillad?**

Mae'n debygol y byddwn ni'n dychwelyd at bolisi gwisg arferol yn nhymor yr hydref. Dyma benderfyniad lleol sy'n cael ei wneud gan gorff llywodraethu pob ysgol. Bydd ysgolion unigol yn hysbysu rhieni a disgyblion o'r disgwyliadau o ran gwisgo gwisg ysgol.

Rydyn ni'n argymhell yn gryf eich bod, bob dydd, yn golchi'r dillad fydd yn cael eu gwisgo i'r ysgol i sicrhau bod risgiau yn cael eu lliniaru.

30. **A fydd angen i fi roi dillad dysgu awyr agored neu ddillad campfa yn ychwanegol i fy mhlentyn?**

Bydd ysgol eich plentyn yn rhoi gwybod i chi am hyn oherwydd mae'n dibynnu ar y gweithgareddau addysgu mae pob ysgol yn unigol wedi'u cynllunio. Anogir dysgu yn yr awyr agored.

AFIECHYDON A PHROFION POSITIF COVID-19

30. **Beth fydd yn digwydd os bydd achos o'r Coronafeirws (COVID-19) yn cael ei amau neu wedi'i gadarnhau yn ysgol neu leoliad gofal fy mhlentyn?**

Os yw plentyn, person ifanc neu aelod o staff yn datblygu symptomau sy'n gydnaws â'r Coronafeirws (COVID-19), bydd yn cael ei anfon adref a'i gynghori i hunan-ynysu

am 7 diwrnod. Dylai pawb sy'n byw yn yr un tŷ ag ef hunan-ynysu am 14 diwrnod oni bai eu bod yn cael prawf negatif.

Bydd pob aelod o staff a disgybl yn gallu cael prawf os oes ganddo symptomau'r Coronafeirws (COVID-19).

Os bydd plentyn, person ifanc neu aelod o staff yn dangos symptomau, bydd yr ysgol yn defnyddio strategaeth Profi, Olrhain, Diogelu. Gweler y ddolen am ragor o fanylion.

<https://llyw.cymru/canllawiau-ar-brofi-ac-olrhain-cysylltiadau-i-leoliadau-addysg>

Pan fydd y plentyn, y person ifanc neu'r aelod o staff yn cael prawf positif, mae'n bosibl y bydd gweddill ei ddosbarth/grŵp yn ei leoliad gofal plant neu addysg yn cael eu hanfon adref a'u cynghori i hunan-ynysu am 14 diwrnod.

Gan ddibynnu ar ganlyniad profion pellach, mae'n bosibl y bydd gweddill y dosbarth/grŵp yn cael eu hanfon adref a'u cynghori i hunan-ynysu am 14 diwrnod. Does dim angen i bobl sy'n byw yn yr un tŷ â'r disgyblion sydd yn yr un dosbarth/grŵp â'r plentyn/person ifanc sydd â symptomau hunan-ynysu oni bai bod y plentyn, person ifanc neu aelod o staff sy'n byw gyda nhw yn cael symptomau.

Lle mae lleoliadau yn dilyn canllawiau ar atal a rheoli heintiau, a fydd yn lleihau'r risg o drosglwyddo, fydd dim angen cau'r lleoliad cyfan fel rheol.

32. Pryd dylwn i beidio ag anfon fy mhentyn i'r ysgol? Er enghraifft, os oes ganddyn nhw wres uchel.

Ddylai disgyblion na staff ddim bod ar safle'r ysgol/leoliad o dan unrhyw amgylchiadau os ydyn nhw'n:

- teimlo'n sâl, ag unrhyw un o'r tri symptom COVID-19 sydd wedi'u nodi (peswch parhaus newydd, tymheredd uchel neu golli blas neu arogl) neu eu bod wedi profi'n positif am COVID-19 yn ystod yr 14 diwrnod diwethaf;
- byw ar aelwyd gyda rhywun sydd â symptomau COVID-19; neu
- wedi profi'n positif am COVID-19 yn ystod yr 14 diwrnod diwethaf.

CLUDIANT

33. A fydd cludiant i'r ysgol yn cael ei ddarparu unwaith eto pan fydd yr ysgolion yn ailagor ym mis Medi?

Mae'r Cyngor yn gweithio i ailddechrau ei wasanaethau cludiant pwrpasol i'r ysgol, er bydd angen parhau i gyfyngu ar nifer y seddi sydd ar gael yn unol â'r canllaw diweddaraf ar gadw pellter cymdeithasol.

Rydyn ni'n annog rhieni a chynhalwyr i fynd â'u plant i'r ysgol drwy gerdded neu feicio, neu mewn car preifat, yn hytrach na defnyddio cludiant penodedig yr ysgol. Rydwn ni'n effro i'r ffaith fydd hyn ddim yn bosibl i rai pobl.

Os oes cyfyngiad ar nifer y seddi o ganlyniad i fesurau cadw pellter cymdeithasol, bydd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r rheiny sydd â hawl i gludiant ysgol am ddim, yn unol â pholisi'r Cyngor, ac sy'n byw bellaf i ffrwd neu, fel arall, fyddai dim modd iddyn nhw fynychu'r ysgol heb y cludiant. Caiff rhagor o wybodaeth ei rhoi os bydd angen blaenoriaethu disgyblion.

34. A fydd llwybr cludiant arferol fy mhlentyn yn weithredol?

Rydyn ni'n aros am ganllawiau pellach ar drefniadau cludiant i ysgolion gan Lywodraeth Cymru. Yn y cyfamser, rydyn ni'n gweithio gydag ysgolion a lleoliadau addysgol eraill i ddarparu'r un llwybrau trafndiaeth prif ffrwd.

Mae'n bosibl bydd trefniadau cludiant eich plentyn yn wahanol pan fydd yn dychwelyd i'r ysgol. Gall rhai newidiadau gynnwys teithio gyda disgyblion gwahanol a staff trafndiaeth yn gwisgo Cyfarpar Diogelu Personol gan gynnwys mygydau neu fisorau. Rydyn ni'n deall y bydd y newidiadau i'r daith i'r ysgol yn bryder i rai plant a phobl ifainc. Esboniwch y newidiadau yma i'ch plentyn ymlaen llaw er mwyn ei helpu i baratoi.

I'r disgyblion hynny sydd eisoes yn derbyn trafndiaeth i'r ysgol am ddim neu sy'n wynebu trefniadau newydd erbyn mis Medi, bydd cludiant ysgolion prif ffrwd yn parhau i weithredu yr un fath ag yr oedd cyn pandemig COVID-19.

Mae manylion yr amserlen, gan gynnwys y gweithredwr bws, ar gyfer taith eich plentyn i'r ysgol, yn ogystal â manylion pellach ynglŷn â'r gwasanaeth cludiant i ysgolion prif ffrwd, ar gael yma:

<https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Resident/ParkingRoadsandTravel/Travel/SchoolandCollegeTransport/Schoolbusroutes.aspx> (mae'n bosibl bydd amserlenni'n newid – cânt eu diweddarau ym mis Awst).

Os nad oedd cludiant eisoes yn cael ei ddarparu neu os nad ydych chi wedi derbyn cadarnhad bod eich plentyn yn derbyn sedd am ddim ar gludiant i'r ysgol, bydd raid i chi drefnu eich ffordd eich hun i'r ysgol.

35. Mae gan fy mhlentyn anghenion dysgu ychwanegol. Pa drefniadau cludiant fydd ar waith i Ddosbarthiadau Cymorth Dysgu, Unedau Cyfeirio Disgyblion ac Ysgolion Arbennig?

Rydyn ni'n aros am ganllawiau pellach ar drefniadau cludiant i ysgolion gan Lywodraeth Cymru. Yn y cyfamser, rydyn ni'n gweithio tuag at ddarparu'r un llwybrau i Ddosbarthiadau Cynnal Dysgu, Unedau Cyfeirio Disgyblion ac Ysgolion Arbennig, er ei bod hi'n bosibl bydd cyfyngiad i'r nifer o seddi sydd ar gael yn parhau.

Rydyn ni'n annog rhieni a chynhalwyr i fynd â'u plant i'r ysgol drwy gerdded neu feicio, neu mewn car preifat, yn hytrach na defnyddio cludiant penodedig yr ysgol. Rydyn ni'n effro i'r ffaith fydd hyn ddim yn bosibl i rai pobl.

Rydyn ni'n deall bod modd i deuluoedd deimlo'n bryderus ynghylch trefniadau teithio i'r ysgol yn ystod pandemig y Coronafeirws. Byddwn ni'n gwneud ein gorau i roi cymorth a chadw pethau mor gyson â phosibl drwy geisio defnyddio'r un contractwr, yr un gyrrwr a chynorthwydd ond efallai y bydd angen i ni ddarparu cerbydau mwy o faint i sicrhau bod y rheolau cadw pellter cymdeithasol yn cael eu dilyn.

Mae'n bosibl bydd trefniadau cludiant eich plentyn yn wahanol pan fydd yn dychwelyd i'r ysgol. Gall rhai newidiadau gynnwys teithio gyda disgyblion eraill, llwybrau gwahanol gydag amseroedd teithio gwahanol, a staff trafndiaeth yn gwisgo Cyfarpar Diogelu Personol gan gynnwys mygydau neu fiserau. Rydyn ni'n deall efallai y bydd y newidiadau i'r daith i'r ysgol yn bryder i rai plant a phobl ifainc. Esboniwch y newidiadau yma i'ch plentyn ymlaen llaw er mwyn eu helpu i baratoi.

36. Dyw fy mhentyn i ddim yn gymwys ar gyfer cludiant am ddim i'r ysgol, oes modd i fi dalu am sedd?

Yn anffodus mae'r Cyngor wedi gorfod atal y gwasanaeth dewisol yma am y tro yn sgil pandemig COVID-19 a'r mesurau sydd eu hangen er mwyn sicrhau cadw pellter cymdeithasol ar gludiant i'r ysgol. Gan fod argaeledd ar drafndiaeth gyhoeddus yn gyfyngedig, mae Llywodraeth Cymru yn annog rhieni a chynhalwyr i fynd â'u plant i'r ysgol drwy gerdded neu feicio, neu mewn car. Rydyn ni'n parhau i adolygu'r sefyllfa. Peidiwch â chysylltu â'r Cyngor. Byddwn ni'n cysylltu â chi mewn da bryd pan fydd y cyfyngiadau wedi'u llacio.

37. Beth fydd y trefniadau cludiant i'r ysgol pan fydd ysgolion yn dychwelyd yn nhymor yr hydref?

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar gyfer ailagor ysgolion ym mis Medi a bydd y Cyngor yn gweithio yn unol â'r canllawiau hynny yn y dyfodol (Saesneg yn unig)

<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-07/operational-guidance-for-schools-and-settings-from-the-autumn-term.pdf>

Rydyn ni'n aros am ganllawiau pellach gan Lywodraeth Cymru am drefniadau cludiant i'r ysgol.

Mae'n bwysig i rieni/cynhalwyr a phlant ddilyn y rheolau cadw pellter cymdeithasol lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Bydd cynorthwywyr dim ond ar gludiant i ysgolion cynradd ac ar gludiant ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Eu rôl fydd sicrhau diogelwch teithwyr a sicrhau eu bod yn eistedd yn y llefydd cywir. Dylid dangos i blant sut i osod a chau eu gwregysau diogelwch, gan sicrhau bod ond ychydig iawn o gysylltiad personol yn digwydd.

38. Pa ragofalon y mae rhaid i fy mhentyn eu cymryd wrth deithio?

Gofynnwn i rieni a chynhalwyr helpu i esbonio i ddisgyblion bwysigrwydd hylendid da a dilyn mesurau cadw pellter cymdeithasol, gan y bydd y rhain yn chwarae rhan allweddol wrth gadw pawb yn ddiogel.

Mae hyn yn golygu y dylech chi gymryd y rhagofalon canlynol:

- **Peidiwch â theithio os ydych chi'n profi unrhyw symptomau COVID-19, hunan-ynysu o ganlyniad i symptomau'r COVID-19, rhannu cartref gyda rhywun sydd â symptomau neu sy'n agored i niwed yn glinigol,**
- ystyriwch a yw defnyddio cludiant i'r ysgol yn gwbl angenrheidiol,
- golchwch eich dwylo am o leiaf 20 eiliad neu glanhewch eich dwylo cyn gadael y tŷ,
- cadwch bellter cymdeithasol oddi wrth bobl y tu allan i'ch cartref eich hun drwy gydol y daith i'r ysgol, gan gynnwys yn yr arhosfan bysiau ac ar ar y cerbyd,
- peidiwch â gwneud cyswllt corfforol ag eraill,
- bydd ffenestri ar agor er mwyn awyru,
- wynebchwch i'r cyfeiriad arall – i ffwrdd oddi wrth bobl eraill wrth ddefnyddio'r cludiant,
- osgowch gyffwrdd â llawer o arwynebau ac, yn benodol, osgowch gyffwrdd ag arwynebau fel rheiliau llaw a silffoedd ffenestri,
- peidiwch â chyffwrdd â'ch wyneb,
- peidiwch â threulio llawer o amser wrth ymyl pobl eraill wrth i chi ddefnyddio'r cludiant,
- peidiwch â bwyta nac yfed wrth ddefnyddio cludiant,
- golchwch eich dwylo am o leiaf 20 eiliad neu glanhewch eich dwylo cyn gadael yr ysgol.

Nodwch y gallai gwrthod â chydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch, hylendid da a rheolau cadw pellter cymdeithasol arwain at dynnu lle eich plentyn ar gludiant i'r ysgol yn ôl. Byddwn yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth chi i atgyfnerthu'r neges yma gyda'ch plentyn chi'n fawr.

39. Beth fydd y trefniadau ar gyfer cadw at reolau cadw pellter cymdeithasol ar gludiant i'r ysgol?

Rhaid i blant, yn ogystal ag oedolion, gadw at y rheolau cadw pellter cymdeithasol er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo'r feirws i bobl eraill. Dylai disgyblion gadw pellter cymdeithasol oddi wrth eraill nad ydyn nhw'n byw yn yr un tŷ. Os dydy hyn ddim yn bosibl, dylai'r disgyblion osgoi cyswllt corfforol ac wynebu i ffwrdd o bobl eraill. Bydd angen gwisgo gorchudd wyneb ar drafnidiaeth gyhoeddus o 27 Gorffennaf ymlaen ac mae'n bosibl y bydd hyn yn dod yn ofyniad ar gludiant ysgol os bydd hi'n anodd cynnal pellter cymdeithasol rhwng pobl.

Penderfyniad rhieni/cynhalwyr ydyw i'w plant ddefnyddio cludiant i'r ysgol ai peidio. Efallai byddan nhw'n teimlo'n bryderus am y sefyllfa a byddai'n well gyda nhw wneud eu trefniadau eu hunain er mwyn cludo'u plant i'r ysgol ac yn ôl adref.

Rydyn ni'n aros am ganllawiau pellach gan Lywodraeth Cymru am drefniadau cludiant i'r ysgol. Byddwn yn ystyried trefniadau eistedd yn ofalus, yn unol â'r canllawiau yma. Bydd yr holl gamau priodol yn cael eu cymryd i leihau a rheoli risg, yn seiliedig ar y canlynol:

- Bod risg COVID-19 i blant a phobl ifainc yn isel,
- Bod cludiant i'r ysgol yn cludo'r un grŵp o ddisgyblion yn rheolaidd, a bod y disgyblion hynny hefyd yn debygol o fod gyda'i gilydd yn yr ysgol,

- Bod disgyblion yn eistedd gyda'i gilydd o fewn eu grwpiau blwyddyn lle bo'n bosibl,
 - Bod brodyr a chwiorydd yn cael eistedd gyda'i gilydd,
 - Bod dim seddi sy'n wynebu'i gilydd,
 - Fod disgyblion na theithwyr eraill ddim yn cyffwrdd â'i gilydd,
 - Bod ffenestri a fentiau yn y to ar agor ar bob adeg,
 - Bod cysylltiad rhwng rhywun sy'n sâl yn cael ei leihau,
- Dylai teithwyr, gan gynnwys y gyrwyr a chynorthwyrwyr teithio, olchi'u dwylo neu ddefnyddio hylif diheintio dwylo cyn teithio ac wrth gyrraedd yr ysgol/gartref,
 - Os oes achos wedi'i gadarnhau neu achos posib o COVID-19, bydd hi'n hawdd adnabod pwy oedd yn teithio ar be gerbyd, gan helpu'r broses o Brofi, Tracio ac Orlhain,
 - Bydd trefn lanhau a diheintio manwl cyn ac ar ôl pob taith.

40. Sut y bydd eich plentyn chi'n gwybod ble i eistedd?

Wrth fynd ar y bws ar y ffordd i'r ysgol, rhaid i'r disgyblion eistedd yn eu grwpiau blwyddyn neu gyda'u brodyr a chwiorydd lle bo'n bosibl, gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gyrrwr neu'r cynorthwydd teithio (os bydd un yn teithio ar y bws), gan gymryd y sedd sydd ar gael, sydd agosaf i'r cefn a rhaid i'r plentyn neu berson ifanc sydd agosaf at ddrws y bws adael yn gyntaf.

Wrth gamu ar y bws ar y ffordd adref o'r ysgol, dilynwch gyfarwyddiadau'r gyrrwr neu'r cynorthwydd teithio (os bydd un yn teithio ar y bws). Rhaid i ddisgyblion eistedd yn eu grwpiau blwyddyn neu gyda'u brodyr a chwiorydd lle bo'n bosibl, gyda'r rhai sy'n byw bellaf i ffwrdd o'r ysgol yn cymryd y sedd sydd agosaf at y cefn er mwyn bod modd i'r plentyn neu'r person ifanc sydd agosaf at ddrws y bws adael yn gyntaf.

41. Sut y byddwch chi'n sicrhau fod dim gormod o ddisgyblion ar y bysiau?

Dim ond teithwyr sydd wedi'u henwi a'u cymeradwyo cyn teithio, neu deithwyr mewn ysgolion uwchradd â cherdyn teithio ar gyfer y llwybr, fydd yn cael defnyddio'r cludiant. Bydd gan yrwyr restr o'r disgyblion sydd wedi'u dyrannu ar gyfer eu cludiant bob dydd. Fydd polisi 'dim cerdyn, dim teithio' yn cael ei weithredu'n llym ar fysiau i ysgolion uwchradd, a fydd y rheiny sydd ddim â'r hawl i deithio ddim yn cael teithio ar y bws.

42. A fydd y cyflenwyr trafndiaeth yn dilyn canllawiau iechyd a diogelwch?

Rydyn ni'n gofyn i gyflenwyr trafndiaeth ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru <https://llyw.cymru/ailddechrau-trafnidiaeth-gyhoeddus-canllawiau-i-weithredwyr>. Mae'r canllawiau yma'n cynnwys camau fel diheintio, glanhau'r cerbydau'n rheolaidd ac yn drylwyr a defnyddio Cyfarpar Diogelu Personol.

43. Beth fydd yn digwydd i gludiant ysgol ar gyfer y flwyddyn ysgol newydd ym mis Medi 2020 pan fydd canllawiau newydd wedi'u cyhoeddi?

Mae pandemig y Coronafeirws wedi golygu bod angen inni wneud newidiadau helaeth i'n trefniadau cludiant i'r ysgol er mwyn ymdopi â rheolau cadw pellter cymdeithasol pan agorodd yr ysgolion eto ar 29 Mehefin 2020 er mwyn ailgydio, dal i fyny a pharatoi ar gyfer mis Medi. Yng ngoleuni canllaw newydd gan Lywodraeth Cymru, bydd angen i ni ystyried pa newidiadau neu drefniadau gwahanol bydd eu hangen o fis Medi 2020 pan fydd y flwyddyn academiaidd newydd yn dechrau. Os oes angen unrhyw newidiadau o'r fan honno, byddwn yn cysylltu â rhieni a chynhalwyr yn uniongyrchol cyn gynted â phosibl.

44. A fydd disgwyl i fy mhlentyn wisgo gorchudd ar ei wyneb?

Mae tystiolaeth yn parhau i ddangos yn glir mai'r ffordd fwyaf effeithiol o ddiogelu eich plentyn ac eraill rhag cael eu heintio yw dilyn rheolau cadw pellter cymdeithasol, osgoi cyffwrdd arwynebau a'ch wyneb chi a sicrhau eich bod yn golchi'ch dwylo'n rheolaidd. Os caiff gorchuddion wyneb eu gwisgo, rhaid peidio â gwneud hyn yn lle gweithredu'r rhagofalon eraill yma.

Efallai fydd ddim modd i blant ifainc na phlant ag anghenion arbennig neu'r rheiny sy gorfod darllen gwefusau i gyfathrebu wisgo gorchuddion wyneb mewn modd diogel. Efallai y bydd plant oedran uwchradd yn dymuno defnyddio gorchuddion wyneb, yn enwedig pan fo cerbydau'n llawn neu le nad oes modd i ddisgyblion eistedd gyda'i gilydd yn eu grwpiau blwyddyn, ond dylen nhw gofio i gadw eu lefel hylendid yn uchel iawn a pharhau i lynu at y rheolau cadw pellter cymdeithasol.

Yng nghyflwyniad Coronafeirws dyddiol Llywodraeth Cymru ar 13 Gorffennaf 2020, cyhoeddodd y Prif Weinidog byddai'n ofynnol i bobl ddefnyddio gorchudd wyneb tair haen ar fysiau, drenau ac mewn tacsis, lle nad yw'n bosibl i gynnal pellter corfforol wrth deithio, o 27 Gorffennaf 2020 ymlaen.

Bydd canllawiau newydd ynghylch trafniadaeth gyhoeddus ar hyn yn cael eu cyhoeddi'n fuan, ac mae'n debygol y bydd hyn yn effeithio ar gludiant i'r ysgol.

DARPARIAETH GOFAL PLANT BRYS

45. Fydd darpariaeth gofal plant brys i weithwyr allweddol/hanfodol, yn enwedig disgyblion sy'n agored i niwed, ar gael?

Fydd dim darpariaeth gofal plant brys yn nhymer yr hydref. Bydd holl ddisgyblion yn dychwelyd i'w hysgolion arferol dros y cyfnod rhwng 3 Medi a 10 Medi.